

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I	<u>CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR</u>
PWNC:	<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU</u> <u>DEMOCRATAIDD - 5 EBRILL 2018</u>
ADRODDIAD GAN:	<u>SWYDDOG CYMORTH BUSNES</u> <u>DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL</u>

PRESENNOL: CYNGHORYDD H. McCARTHY (CADEIRYDD)

Cynghorwyr J. Millard (Is-gadeirydd)
K. Hayden
L. Parsons
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas

A: Pennaeth Polisi a Pherfformiad
Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
Rheolwr Perfformiad Corfforaethol
Pennaeth Trysorlys

HEFYD: **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu**
Cynghorwyr P. Edwards
H. Trollope

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
1.	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u> Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
2.	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb gan:- Cynghorwyr N. Daniels a J.C. Morgan</p>	
3.	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.</p>	
4.	<p><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018.</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.</p>	
5.	<p><u>ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a baratowyd ar y cyd gan y Pennaeth Trysorlys a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol.</p> <p>Amlinellodd y Pennaeth Trysorlys y cynigion yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19. Dywedodd y Swyddog fod y Panel yn cynnig cynnydd o £200 yng nghyflogau pob Cynrychiolydd Etholedig a nododd ymhellach lefelau taliadau cyflogau sylfaenol ac uwch ar gyfer 2018/19.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd at ad-dalu costau gofal ac er nad oedd unrhyw newid yn lefel y costau y gellid eu hawlio, dymunai'r Panel ddymuno mwy o ddefnydd o'r elfen hon. Felly roedd gan yr Awdurdod ddau opsiwn i'w hystyried yn ymwneud â chyhoeddi costau gofal un ai yn rhoi manylion y symiau a ad-dalwyd i unigolion neu ddim ond cyhoeddi'r cyfanswm a ad-dalwyd gan yr Awdurdod heb briodoli unrhyw enwau i'r symiau.</p> <p>Cyfeiriodd y Pennaeth Trysorlys ymhellach at y goblygiadau ariannol a dywedodd, yn seiliedig ar y trefniadau presennol, y byddai'r costau ychwanegol tua £33,000. Fodd bynnag rhagwelid y gallai'r costau hyn gael eu hamsugno yng nghyllideb 2018/19.</p> <p>Croesawodd Aelod yr opsiynau sydd ar gael yn nhermau ad-dalu costau gofal gan y teimlent fod llawer o graffu cyhoeddi ar dreuliau aelodau ac mae hyn yn aml yn arwain at i Aelodau beidio hawlio costau o'r fath.</p> <p>Gofynnodd Aelod os yw pob Cyngor arall yn cyhoeddi eu treuliau'n llawn. Dywedodd yr Aelod fod treuliau yn fater cynhennus a theimlai fod hyn yn atal pobl ifanc rhag dod yn gynghorwyr. Mae'n bwysig canfod os ydym yn cyhoeddi gwybodaeth yn debyg i awdurdodau eraill.</p> <p>Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Ariannol nad oedd yn gwybod am lefel yr wybodaeth a gyhoeddir gan awdurdodau eraill, fodd bynnag mae'n ofynnol i Gynghorau roi eu rhestr wedi'i cyhoeddi o gydnabyddiaeth ariannol aelodau i'r Panel a bod y Panel yn rhoi patrwm o fformat. Awgrymodd y Swyddog y gellid cynnal dadansoddiad o lefel yr wybodaeth a gyhoeddir gan awdurdodau eraill yn dilyn cyhoeddiad nesaf yr wybodaeth yn yr haf.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p>	<p>R. Hayden</p>

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Bu trafodaeth bellach am gostau teithio ar gyfer Aelodau gydag anableddau a chytunwyd y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn ceisio cael eglurhad ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p> <p>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i argymhell derbyn yr adroddiad a chytuno ar opsiwn 2, ar gyfer cyhoeddi costau gofal; sef y cyfanswm a ad-dalwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ond heb ei briodoli i unrhyw Aelod a enwyd a'i argymhell i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth.</p>	R. Hayden
6.	<p><u>ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Pennaeth Polisi a Pherfformiad.</p> <p>Siaradodd Pennaeth Polisi a Pherfformiad am yr adroddiad a gynhyrchwyd fel rhan o'i rôl ddynodedig fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi manylion y trefniadau sydd ar waith i gefnogi cynrychiolwyr etholedig ac yn rhoi trosolwg o'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i Aelodau. Amlinellodd yr adborth a gafodd o fynychu cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol a nododd y sylwadau a dderbyniwyd fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Amlinellodd ymhellach y gwaith sy'n mynd rhagddo yn dilyn y cyfarfodydd gyda grwpiau gwleidyddol a gwahoddodd gwestiynau/sylwadau gan Aelodau.</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at y cynllun Mentora a dywedodd ei fod yn methu ymroi i'r Cynllun ar hyn o bryd nes y gweithredwyd y dull TGCh a gytunwyd ar gyfer Aelodau.</p> <p>Cyfeiriodd Aelodau at y gorwariant o £2,317 a adroddwyd ar gyfer Cyllideb Datblygu Aelodau. Yn dilyn trafodaeth bellach, teimlai'r Aelodau nad oedd y gyllideb bresennol o £1,940 yn ddigonol ac y dylai gael ei hadolygu. Gallai'r Swyddog gynnal adolygiad o gostau hyfforddiant yn seiliedig ar dystiolaeth a allai hysbysu unrhyw adolygiad o'r gyllideb.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p> <p>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i argymhell Opsiwn 2, gyda'r sylwadau a roddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar adroddiad yr HDS gyda'r argymhelliad i'r Cyngor ystyried adolygu'r gyllideb bresennol Datblygu Aelodau.</p>	B. Elias
7.	<p><u>ADOLYGU DATBLYGIAD PERSONOL AELODAU ETHOLEDIG A GWEITHDREFNAU FFRAMWAITH CYMHWYSEDD</u></p> <p>Dywedodd y Cadeirydd y cafodd yr eitem hon ei <u>DILEU</u> ac y caiff ei hystyried yn y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhelir ar 2 Mai 2018.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
8.	<p data-bbox="252 394 1248 483"><u>ADRODDIAD CYNNYDD TREFNIADAU DEMOCRATAIDD</u></p> <p data-bbox="252 533 1248 607">Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr Perfformiad Corfforaethol.</p> <p data-bbox="252 656 1248 1037">Nododd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yr adroddiad a'r atodiad sy'n amlinellu cynnydd ar y trefniadau democrataidd sydd yn eu lle ar gyfer y cyfnod Hydref 2017 i Mawrth 2018. Mae'r adroddiad cynnydd yn rhoi manylion gwaith ar Ddatblygu Aelodau, Hwyluso'r Broses Ddemocrataidd a Chefnogaeth Craffu. Siaradodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol ymhellach ar yr adroddiad cynnydd a thynnu sylw at y camau gweithredu allweddol ynddo.</p> <p data-bbox="252 1086 1248 1424">Cyfeiriodd Aelod at y data a gyflwynwyd yng nghyswllt digwyddiad WLGA ar gyfer Aelodau newydd a nododd fod yr wybodaeth yn seiliedig ar 42 Cynghorydd, fodd bynnag dim ond 20 Cynghorydd newydd sydd. Dywedodd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol, er bod y digwyddiad ar gyfer aelodau newydd, bod cyfle i aelodau sy'n dychwelyd i fynychu. Cytunodd newid y data i ddangos aelodau newydd yn unig.</p> <p data-bbox="252 1473 855 1509">PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p> <p data-bbox="252 1559 1248 1767">Cyfeiriodd Aelod arall at nifer o aelodau'r cyhoedd yn yr oriel a dywedodd y cynhaliwyd cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu mewn ysgol lleol lle bu disgyblion a staff yn edrych ar y cyfarfod. Teimlai'r Aelod y dylai hyn gael ei gydnabod yn yr wybodaeth perfformiad.</p>	G. Wasley

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Cyfeiriodd Aelod arall at yr wybodaeth perfformiad a adroddwyd ar gyfer sesiynau hyfforddiant Aelodau a dywedodd y dylai Aelodau benderfynu drostynt eu hunain os teimlent y byddai'n addas mynychu'r hyfforddiant. Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a theimlai fod y sesiynau yn ddefnyddiol i aelodau newydd, fodd bynnag byddai aelodau blaenorol o'r Awdurdod eisoes yn gyfarwydd gyda rhai o'r pynciau trafod.</p> <p>Dywedodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad y cytunwyd bod rhai sesiynau yn orfodol. Yn dilyn trafodaeth, adolygir yr hysbysiad i Aelodau am y sesiynau i nodi'r gynulleidfa darged allweddol. Byddai angen i Aelodau flaenoriaethu pa sesiwn y maent yn ei mynychu. Dywedodd y trefnir yr hyfforddiant i sicrhau ei fod yn berthnasol ac amserol. Caiff rhai sesiynau hefyd eu sefydlu yn dilyn trafodaethau gydag aelodau yn eu Hadolygiadau Datblygiad Personol.</p> <p>PENDERFYNWYD argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Adroddiad ar Berfformiad Trefniadau Democrataidd i'r Cyngor.</p>	
9.	<p><u>GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD PWYLLGOR</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Polisi a Pherfformiad a'r Rheolwr Perfformiad Corfforaethol.</p> <p>Nodwyd y cafwyd cymorth grant at we-ddarlledu blaenorol cyfarfodydd Pwyllgor. Daeth y cyfleuster i ben pan gafodd y cyllid ei ddileu gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol fod awdurdodau eraill yn dal i we-ddarlledu, gyda rhai yn dewis gwe-ddarlledu yn unig ar gyfer pwyllgorau gwneud penderfyniadau.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>Ychwanegwyd nad oedd yn ofynnol i Gynghorau we-ddarlledu, fodd bynnag gyda chyflwyno'r Bil Diwygio Llywodraeth Leol gellid rhoi disgwyliad ar Gynghorau i sicrhau y caiff gwe-ddarllediad o gyfarfodydd..</p> <p>Cyfeiriodd Aelod at gostau blaenorol o £42,000 ar gyfer gwe-ddarlledu a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod gan y Cyngor flaenoriaethau eraill ar hyn o bryd a theimlai na ddylai'r Cyngor weithredu'r cyfleuster nes bod Bil Diwygio Llywodraeth Leol yn ei orfodi ar awdurdodau. Dywedodd ymhellach mai Blaenau Gwent oedd y cyngor tlotaf yng Nghymru ac mae'r Awdurdod yn parhau i dderbyn setliadau gwael. Roedd yn bwysig ein bod yn trin ein blaenoriaethau ein hunain a hefyd yn sicrhau fod y gefnogaeth TGCh berthnasol ar gael ar gyfer Aelodau.</p> <p>Croesawodd yr Aelod ddatblygiad yr achos busnes, fodd bynnag teimlai na ddylai gael ei weithredu nes bod angen i awdurdodau we-ddarlledu cyfarfodydd ac yna ddim ond ar gyfer cyfarfodydd sy'n gwneud penderfyniadau fel y Cyngor, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Cynllunio.</p> <p>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.</p> <p>Dywedodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad y byddai'r achos busnes yn adolygu pob opsiwn sy'n cynnwys y seilwaith TGCh i gefnogi gwe-ddarlledu, ac y byddid yn dod ag ef yn ôl i gyfarfod o'r Pwyllgor gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol er mwyn ystyried opsiynau.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad ac argymell Opsiwn 1 i'r Cyngor gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid datblygu busnes achos ar gyfer darparu gwe-ddarlledu a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y dyfodol.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER AELODAU - TREFNIADAU ARFAETHEDIG</u></p> <p>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad.</p> <p>Yn ei rôl fel Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd, dywedodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad fod yr adroddiad yn amlinellu'r trefniadau arfaethedig i gefnogi datblygu Adroddiadau Blynyddol ar gyfer Aelodau. Dywedodd bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r fformat cyfredol yn 2013, y fformat safonol ar draws pob awdurdod bryd hynny. Fodd bynnag, ni fu cwblhau'r adroddiadau yn llwyddiannus iawn ac mae risg o beidio cydymffurfio gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) os nad yw'r trefniadau priodol yn eu lle i gynorthwyo Aelodau i gwblhau adroddiadau. Nododd hefyd y caiff yr adroddiadau eu monitro gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Awgrymodd y Swyddog y byddai'n ddefnyddiol dod â rhai enghreifftiau arfer da i'r Sesiwn Wybodaeth i Aelodau i roi arweiniad a chymorth lle mae angen.</p>	

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
	<p>PENDERFYNWYD argymell derbyn yr adroddiad ac argymell Opsiwn 1 i'r Cyngor, sef cytuno a gweithredu fformat a phroses Adroddiad Blynyddol. Yr amserlenni a gynigir yw i Adroddiadau Blynyddol 2017/18 gael eu cymeradwyo gyda Sesiwn Wybodaeth fer i Aelodau ddydd Mercher 30 Mai 2018 i roi gwybodaeth, arweiniad a chynghor i Aelodau yng nghyswllt cwblhau'r templedi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Templedi'r Adroddiad Blynyddol i'w dosbarthu i Aelodau erbyn dydd Gwener 8 Mehefin 2018. • Ar ôl eu llenwi, pob templed i gael eu dychwelyd yn electronig (lle'n bosibl) erbyn dydd Gwener 13 Gorffennaf 2018. • Cyhoeddi'r Adroddiadau Blynyddol ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Awst 2018. <p>Mae'n ofynnol i ddeiliaid cyflog uwch i lenwi Adroddiad Blynyddol.</p>	